
CYFARFOD CABINET RHANBARTHOL: 24 MEDI 2018

Aelodau'r Cabinet Rhanbarthol a oedd yn bresennol:

Y Cyng. Nigel Daniels, Arweinydd	-	Cyngor Blaenau Gwent
Michelle Morris, Rheolwr Gyfarwyddwr	-	Cyngor Blaenau Gwent
Y Cyng. Hywel Williams	-	Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr
Darren Mepham, Prif Weithredwr	-	Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr
Y Cyng. David Poole, Arweinydd	-	Cyngor Caerffili
Christina Harrhy, Prif Weithredwr Dros Dro	-	Cyngor Caerffili
Paul Orders, Prif Weithredwr	-	Cyngor Caerdydd
Y Cyng. Kevin O'Neill, Arweinydd	-	Cyngor Merthyr Tudful
Gareth Chapman, Prif Weithredwr	-	Cyngor Merthyr Tudful
Y Cyng. Peter Fox, Arweinydd	-	Cyngor Sir Fynwy
Paul Matthews, Prif Weithredwr	-	Cyngor Sir Fynwy
Will Godfrey, Prif Weithredwr	-	Cyngor Casnewydd
Y Cyng. Andrew Morgan, Arweinydd (Cadeirydd)	-	Cyngor Rhondda Cynon Taf
Chris Bradshaw, Prif Weithredwr	-	Cyngor Rhondda Cynon Taf
Y Cyng. Richard Clark	-	Cyngor Torfaen
Alison Ward, Prif Weithredwr	-	Cyngor Torfaen
Y Cyng. John Thomas, Arweinydd	-	Cyngor Bro Morgannwg
Rob Thomas, Prif Weithredwr	-	Cyngor Bro Morgannwg

Swyddogion:

Christine Salter	-	Corff Atebol
Liz Weale	-	Corff Atebol
Hrjinder Singh	-	Corff Atebol
David Marr	-	Cyngor Caerdydd
Alistair Milburn	-	Effective Communications
Kellie Beirne	-	Swyddfa Rheoli Rhaglen y Fargen
Ddinesig		
Matt Swindell	-	Swyddfa Rheoli Rhaglen y Fargen
Ddinesig		
Phil Pugh	-	Swyddfa Archwilio Cymru

Ymddiheuriadau:

Y Cyng. Huw David, Arweinydd	-	Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr
Y Cyng. Huw Thomas, Arweinydd	-	Cyngor Caerdydd
Y Cyng. Debbie Wilcox, Arweinydd	-	Cyngor Casnewydd
Y Cyng. Anthony Hunt, Arweinydd	-	Cyngor Torfaen

1. Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Croesawodd y Cyng. Morgan gydweithwyr i'r cyfarfod ac fe nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. Datgan Buddiannau

Gofynnodd y Cyng. Morgan i bob Aelod ddatgan unrhyw fuddiannau perthnasol ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw, yn unol â Chod Ymarfer yr Aelodau.

3. Cofnodion Drafft y Cabinet Rhanbarthol a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2018

Derbyniwyd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2018 fel cofnod cywir.

4. Cynllun Busnes Blynyddol 2018-19 – Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 (Cofnod Rhif 35)

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad ar ran Cyfarwyddwr Rhaglen y Fargen Ddinesig ynghylch Cynllun Busnes Blynyddol 2018-19 - Chwarter 1 i'w ystyried a'i gymeradwyo.

PENDERFYNWYD: cytunwyd bod y Cyd-gabinet:

- a) Yn nodi'r cynnydd cyffredinol ar Chwarter 1 yn erbyn y Cynllun Busnes Blynyddol 2018/19, rhaglenni gwaith cysylltiedig, gweithgareddau partneriaethau a chynlluniau;
- b) Yn nodi gwariant gwirioneddol ac alldro blwyddyn cyfan a ragamcenir ar Chwarter 1 yn erbyn cyllidebau'r Gronfa Buddsoddi Ehangach fel y rhestrir yn y Cynllun Busnes Blynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19;
- c) Yn rhoi awdurdod i Gyfarwyddwr Rhaglen Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i gyflwyno rhannau perthnasol o'r adroddiad ar berfformiad Chwarter 1 yn ffurfiol, gan gynnwys gwybodaeth ategol i Lywodraethau'r DU a Chymru, a rhanddeiliaid eraill fel y bo angen, ar ran y Cabinet Rhanbarthol; ac
- d) Yn nodi y bydd fformat a strwythur yr adroddiad hwn yn newid yn y dyfodol, o ystyried yr angen am addasiadau ehangach i'r rhaglen waith a lein beipiau project a ffyrdd newydd o weithio yn dod i'r amlwg.

5. Sefyllfa Monitro Cyllideb Refeniw'r Cydbwyllgor Mis 4 2018/19 (Cofnod Rhif 36)

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad ar ran y Swyddog Adran 151 ar gyfer Cydbwyllgor Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd parthed Sefyllfa Monitro Cyllideb Refeniw y Cydbwyllgor Mis 4 2018/19 er ystyriaeth a chymeradwyaeth.

PENDERFYNWYD: cytunwyd bod y Cabinet Rhanbarthol yn nodi'r gwariant gwirioneddol, yr incwm a sefyllfa alldro'r flwyddyn lawn a ragamcenir ar 31 Gorffennaf 2018 (Mis 04), yn erbyn ei Gyllideb Refeniw 2018/19 gymeradwy.

6. Diweddariad ar Archwiliad Datganiad Cyfrifon 2017/18 (Cofnod Rhif 37)

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad diweddaru ar ran y Swyddog Adran 151 ar gyfer Cyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd parthed Archwiliad Datganiad Cyfrifon 2017/18 i'w ystyried a'i gymeradwyo .

Datganwyd buddiant personol gan y Cyng. Morgan (ond heb fod yn niweidiol) oherwydd ei fod yn nabod teulu Phil Pugh yn bersonol.

PENDERFYNWYD: cytunwyd bod y Cyd-gabinet:

- a) Yn nodi'r diweddariad a ddarparwyd ar y gwaith archwilio allanol a gwblhawyd hyd yn hyn a manylion y materion sy'n parhau dros ben ar yr adeg hon;
- b) Yn awdurdodi'r Corff Atebol i gyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon 2017/18 heb ei archwilio yn y ffurf a gymeradwywyd o'r blaen gan y Cabinet Rhanbarthol ar 18 Mehefin 2018, ynghyd ag esboniad priodol erbyn 30 Medi 2018;
- c) Yn nodi y caiff adroddiad pellach ei ddwyn yn ôl i'r Cabinet Rhanbarthol, y rhagwelir y bydd ym mis Hydref, pan fydd yr archwiliad allanol yn gyflawn a'r adroddiad archwilio terfynol wedi'i ddsbarthu.

7. Gwerthusiad Annibynnol ar Ymyriadau Twf Lleol a Fframwaith Gwerthuso Cenedlaethol - Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (Cofnod Rhif 38)

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad ar ran Cyfarwyddwr Rhaglen y Fargen Ddinesig parthed Arfarniad Annibynnol ar Ymyriadau Twf Lleol a'r Fframwaith Arfarnu Cenedlaethol i'w hystyried a'u cymeradwyo.

PENDERFYNWYD: cytunwyd bod y Cabinet Rhanbarthol:

- a. Yn nodi'r Fframwaith Arfarnu Cenedlaethol fel y'i datblygwyd gan y Panel Arfarnu Cenedlaethol at ddiben arfarnu effaith ymyriadau P-RC ar dwf economaidd lleol;
- b. Yn nodi'r cynllun arfarnu ehangach, gan gynnwys cerrig milltir allweddol ac amserlen ar gyfer proses arfarnu P-RC ac yn benodol yn nodi'r 'model rhesymeg' ar gyfer project y CCD Foundry a'r angen i hyn gael ei rannu gyda rhanddeiliaid allweddol a'i ddeall ganddynt;
- c. Yn nodi goblygiadau adnoddau a chost o bosibl y gwaith hwn dros y tymor canolig a gaiff eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet Rhanbarthol wrth i'r gwaith lleoliad gael ei ddatblygu; aC
- d. Yn cytuno ac yn ardystio'r angen i greu capasiti dadansoddi data ac adnoddau o fewn y broses a'r deunyddiau marchnata proffesiynol i hyrwyddo'r

buddsoddiad yn y Project CCD, diogelu swm o hyd at £30,000 o fewn cyllideb Datblygu a Chefnogi Rhaglen y Gronfa Buddsoddi Ehangach.

8. Mynegi Diddordeb yn y Gronfa Cryfder mewn Lleoedd ar gyfer CS Connected (Cofnod Rhif 39)

Ni chyhoeddir Atodiad 1 yr adroddiad hwn gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth o'r math a ddisgrifir ym Mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad ar ran Cyfarwyddwr Rhaglen y Fargen Ddinesig parthed Datganiad o Ddiddordeb i'r Gronfa Cryfder mewn Lleoedd ar gyfer CS Connected i'w ystyried a'i gymeradwyo.

PENDERFYNWYD: cytunwyd bod y Cabinet Rhanbarthol:

- (i) Yn nodi ac yn ardystio'r cais Datganiad o Ddiddordeb ('EOI') a gyflwynwyd i'r Gronfa Cryfder mewn Lleoedd ar 25 Gorffennaf 2018, fel y disgrifir yn yr adroddiad hwn.
- (ii) Yn cymeradwyo hyd at £30,000 gan gyllideb Datblygu a Chymorth Rhaglen Cronfa Buddsoddi Ehangach BDdPRC er mwyn talu'r costau sy'n gysylltiedig â'r secondiad a amlinellir yn yr adroddiad hwn; gan nodi y bydd Cyngor Sir Fynwy fel arweinydd y Portffolio Arloesi yn cynnal y secondiad;
- (iii) Yn cytuno, os bydd y datganiad o ddiddordeb yn llwyddiannus ac os caiff Cyllid Cryfder mewn Lleoedd ei ddyfarnu er mwyn datblygu'r cynnig ('y Cynnig Manwl') bod:
 - (a) BDdPRC, (gyda'r partneriaethau i'r bid ac o fewn terfyniadau'r cyllid a ddyfernir), yn ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen i ddatblygu'r Cynnig Manwl; a
 - (b) bydd adroddiad pellach (gydag achos busnes atodol) yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet Rhanbarthol er mwyn ceisio cymeradwyaeth o'r Cynnig Manwl i'w gyflwyno, gan gynnwys cymeradwyo unrhyw gyfraniad ariannol sydd ei angen gan Gronfa Buddsoddi Ehangach BDdPRC fel rhan o'r Cynnig Manwl,
- (iv) Yn cytuno, os bydd y datganiad o ddiddordeb yn aflwyddiannus ym mis Hydref 2018, y dylid dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr BDdPRC i weithio gyda phartneriaid y consortiwm i gyflwyno rhagor o ddatganiadau o ddiddordeb o dan rowndiau olynol o raglen Cronfa Cryfder mewn Lleoedd (yn unol â'r ymagwedd a'r egwyddorion a restrir yn yr adroddiad hwn).

9. Cyngor Busnes Rhanbarthol – Gwneud Achos dros MIPIM 2019 – Cais y Cyngor Busnes Rhanbarthol (Cofnod Rhif 40)

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad ar ran Cyfarwyddwr Rhaglen y Fargen Ddinesig ynghylch Gwneud Achos dros MIPIM 2019 – Cais y Cyngor Busnes Rhanbarthol i'w ystyried a'i gymeradwyo.

PENDERFYNWYD: cytunwyd bod y Cabinet Rhanbarthol:

- a) Yn cymeradwyo dyraniad o hyd at £30,000, o gyllideb 2018-19 a gymeradwywyd parthed y Cyngor Busnes Rhanbarthol i gefnogi gweithgarwch y Cyngor Busnes Rhanbarthol, i sicrhau presenoldeb P-RC yn MIPIM, mewn cydweithrediad â Chyngor Caerdydd, LIC, a phartneriaethau a noddwyr y sector preifat. Mae'r dyraniad yn amodol ar dderbyn a chymeradwyo Cynllun Busnes llawn y Cyngor Busnes a gaiff ei dderbyn maes o law;
- b) Nododd y caiff y dyraniad ei reoli trwy Gyngor Caerdydd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r telerau a'r amodau cyllido ac i gadw at yr holl reoliadau eraill sy'n llywodraethu cyllid cyhoeddus wrth sicrhau'r pecyn gofynnol ar gyfer P-RC. Caiff hyn ei gynnal ar sail llyfr agored a chaiff y dadansoddiad costau llawn a manylion y pecyn eu hadrodd yn ôl pan byddant wedi'u deall a'u cytuno;
- c) Cytuno i ddirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr y Fargen Ddinesig mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cabinet ar gyfer Arloesi a Busnes, Y Cynghorydd Peter Fox, i alw grŵp bach, gan gynnwys cynrychiolwyr y Cyngor Busnes, swyddogion arweiniol a Chyfarwyddwr y Fargen Ddinesig, i weithio gyda chydweithwyr Cyngor Caerdydd i ddatblygu'r manylion, cytuno presenoldeb, y pecyn ehangach ac ymdrin â'r holl faterion cysylltiedig sy'n perthyn i'r cynnig hwn; a,
- d) Wedi nodi, ardystio a byddai'n cyfrannu fel sy'n ofynnol i'r gwaith paratoi sydd ei angen, i sicrhau bod gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd gynnig cryf, credadwy a chymhellol i'w arddangos yn MIPIM 2019.

10. Integreiddio'r Portffolio Sgiliau Rhanbarthol – Dirprwyaethau'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, a'r Ffordd Ymlaen ar Sgiliau ar gyfer y Dyfodol (Cofnod Rhif 41)

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad ar ran Cyfarwyddwr Rhaglen y Fargen Ddinesig a Phrif Weithredwr Cyngor Dinas Casnewydd parthed Integreiddio'r Portffolio Sgiliau Rhanbarthol – Dirprwyaethau ar gyfer y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a'r Ffordd Ymlaen ar Sgiliau ar gyfer y Dyfodol i'w ystyried a'i gymeradwyo.

PENDERFYNWYD: cytunwyd bod y Cabinet Rhanbarthol:

- a) Yn nodi'r sefyllfa parthed dirprwyaethau, cylch gorchwyl ac yn ardystio'r gwaith sydd ei angen bellach i fynd i'r arfer â'r materion ac yn cyfreithloni creu un portffolio Sgiliau rhanbarthol cynhwysfawr ac integredig, gydag adroddiad arall i'w gyflwyno i'r Cabinet Rhanbarthol a/neu i'r awdurdodau unigol i'w gymeradwyo, fel sy'n briodol. Yn ogystal â hyn bydd gwaith o'r fath yn cael ei ragosod ar Gyngor Dinas Casnewydd yn gweithredu fel yr Awdurdod Arweiniol ar Sgiliau;

- b) Nodi y caiff trefniadau adnodu dros dro eu rhoi ar waith, gyda chefnogaeth gan reolwyr llinell a'r arweinwyr i Gyfarwyddwr y Fargen Ddinesig a chefnogaeth yr Awdurdod Blaen Arfaethedig. Bydd hyn yn sicrhau sefydlogrwydd a gwydnwch yn y tymor byr;
- c) Nodi Adroddiad Blynyddol drafft y Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i LIC (Ebrill – Gorffennaf 2018) a'r angen i'w drosi i ddogfen a welir gan y cyhoedd; ac
- d) Ardystio'r Briff Sgiliau ar gyfer y Dyfodol a'r gwaith datblygiadol sydd ei angen i offen yr Achos Busnes Amlinellol ('ABC') ac yn cymeradwyo cyllideb o hyd at £25,000 parthed y gwaith hwn. At hyn, bod yr ABC yn cael ei ddatblygu wrth gymryd yn ganiataol bod Cyngor Dinas Casnewydd yn gweithredu fel yr Awdurdod Arweiniol ar gyfer Sgiliau.

Diolchodd y Cyng. Morgan i'w gyd-aelodau am fod yn bresennol a daeth y cyfarfod i ben.

DRAFT